Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Fframwaith Prentisiaethau yn Iechyd (Cymorth Delweddu Clinigol)

Rhif y Fframwaith: FR04386 **Rhifyn:** 9 **Dyddiad:** 21/12/2018

Cytunwyd ar gynnwys y Fframwaith hwn gan Skills for Health ac maent wedi'i gyhoeddi.

TROSOLWG:

Mae'r Fframwaith hwn yn nodi'r safonau a'r meini prawf ar gyfer cyflwyno darpariaeth hyfforddiant Lefelau 2 a 3 o fewn y sector Gwasanaethau Gofal Iechyd. Os cwblheir y ddarpariaeth, caiff cymhwyster wedi'i ddynodi/reoleiddio ei ddyfarnu.

Mae Prentisiaeth Lefel 2 yn addas ar gyfer amrywiaeth o rolau, gan gynnwys Gweithiwr Cymorth Delweddu Clinigol, Gweithiwr Cymorth Gofal Iechyd (Delweddu Clinigol) a Chynorthwyydd mewn Adran Delweddu.

Mae Prentisiaeth Lefel 3 yn addas ar gyfer amrywiaeth o rolau, gan gynnwys Uwch-weithiwr Cymorth mewn Gofal Iechyd (Delweddu Clinigol) ac Uwch-gynorthwyydd mewn Adran Delweddu.

DEILLIANNAU GORFODOL

Bydd y corff dyfarnu priodol yn gwirio sut yr asesir cyflawni'r cymwysterau hyn. Rhaid i unigolion gwblhau:

- Naill ai gymhwyster cymhwysedd a gwybodaeth neu gymhwyster sy'n cyfuno'r ddwy elfen o un o'r llwybrau canlynol
- Sgiliau Hanfodol a'r Hawliau a Chyfrifoldebau Cyflogaeth a nodir isod

Llwybrau ar gyfer y Fframwaith hwn ar lefel 2:
Llwybr 1: Prentisiaeth Sylfaenol mewn Iechyd (Cymorth Delweddu Clinigol)

Llwybrau ar gyfer y Fframwaith hwn ar lefel 3:
Llwybr 1: Prentisiaeth mewn Iechyd (Cymorth Delweddu Clinigol)

Sgiliau Hanfodol Cymru:
Lefel 2 Prentisiaethau
Lefel Cymhwyso Rhif 1, Lefel Gyfathrebu 1, Lefel TGCh 1

Lefel 3 Prentisiaethau
Lefel Cymhwyso Rhif 2, Lefel Gyfathrebu 2, Lefel TGCh 2

DfES-ApprenticeshipUnit@Cymru.GSI.Gov.UK
Gwefan • Website: www.llyw.cymru
www.gov.wales

FEAD DfES • Ty Afon
Heol Bedwas • Bedwas
CF83 8WT

Ceir mwy o wybodaeth o:

Hawliau a Chyfrifoldebau Cyflogaeth

Mae'r wybodaeth a'r broses sefydlu sylfaenol sy'n ymwneud â Hawliau a Chyfrifoldebau Cyflogaeth yn y gweithle yn ddewisol.

RHAGOR O WYBODAETH

I weld cynnwys y Fframwaith hwn a'r fanyleb lawn, cysylltwch: Skills for Health